

RHEOLAU FFIOEDD COFRESTRU 2024-2025

Bydd y ffi a ddangosir ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025 yn cyd-fynd â phob cais sy'n dod o fewn categori a nodir yn y tabl isod:

Ceisiadau am adnewyddu cofrestriad yn flynyddol	Ffi 24/25
<p><u>Ffi adnewyddu flynyddol</u></p> <p>Cais i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol yn y gofrestr o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Optometryddion • Optegwyr cyflenwi • Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau <p>ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2024.</p>	£405
<p><u>Ffi adnewyddu flynyddol i enillwyr incwm isel¹</u></p> <p>Cais i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol yn y gofrestr o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Optometryddion • Optegwyr cyflenwi <p>ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 ceisiadau a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2024.</p>	£285
<p>Cais am adnewyddiad blynyddol yn y gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Medi 2024 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2025 a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Awst 2023.</p>	£30
Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol wrth gofnodi, trosglwyddo neu adfer i'r gofrestr	Ffi 24/25
<p>Ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025, cyfradd pro rata yn seiliedig ar y dyddiad cofnodi ar y gofrestr o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Optometryddion • Optegwyr cyflenwi • Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau 	£101.25 y chwarter neu ran o hynny

¹ diffinnir enillydd incwm isel fel ceisydd neu berson cofrestredig unigol sydd wedi cymhwyso'n llawn yr amcangyfrifir bod cyfanswm ei incwm unigol yn is nag £16,000 ar gyfer y flwyddyn ganlynol, 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.

Ceisiadau i Gofrestru	Ffi 24/25
Cais cychwynnol i'w gofnodi ar y gofrestr o: <ul style="list-style-type: none"> • Optometryddion • Optegwyr cyflenwi • Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau gan gynnwys enillwyr incwm isel. 	£80
Cais i gofrestru yn y gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr am y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2024 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2025. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais am gofrestru.	£30
Cais i gofnodi arbenigedd yn y gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi.	£45

Ceisiadau i drosglwyddo cofrestriad	Ffi 24/25
Cais i drosglwyddo rhwng cofrestrau llawn ar gyfer y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.	£45
Cais i drosglwyddo o'r gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr i'r gofrestr o optometryddion neu o'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar ôl cwblhau llwybr cofrestru achrededig y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC).	£45

Ceisiadau i adfer cofrestriad	Ffi 24/25
Cais cychwynnol i gael ei adfer ar y gofrestr o: <ul style="list-style-type: none"> • Optometryddion • Optegwyr cyflenwi • Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau, gan gynnwys enillwyr incwm isel. 	£80
Cais i adfer i'r gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar ôl tynnu neu ddileu oddi ar y cofrestrau am y flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2024 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2025. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais am gofrestru.	£30

Ceisiadau am Dystysgrifau o Statws Proffesiynol Cyfredol	Ffi 24/25
Cais am dystysgrif statws proffesiynol cyfredol.	£30

Ceisiadau am asesiad o gymwysterau a enillwyd y tu allan i'r DU i gael lle ar y gofrestr o optegwyr cyflenwi neu optometryddion	Ffi 24/25
Ffi graffu ar gyfer prosesu dogfennaeth ar gyfer ceisiadau ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi.	£125
I'r rhai sydd wedi pasio'r cam craffu ac sydd angen asesiad cyfwerthedd, codir ffi am: Asesu cyfwerthedd cymwysterau a phrofiad ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi.	£450
Ffi cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE (dyma gost cyfweliad ffôn / fideo rhwng yr ymgeisydd ac aseswyr y GOC)	£200



Dr Anne Wright CBE
Cadeirydd y Cyngor



Leonie Milliner
Cofrestrydd